ICT Curriculum Team
Tîm Cwricwlwm TGC

Cyfrol 1, Rhifyn 2 Tymor y Gwanwyn 2005

Tîm Cwricwlwm TGCh

Cylchlythyr TGCh

Cynnwys:

- Uwchraddio ACTIVstudio2
- Photo Story 3
- Rhestr o gyrsiau Tymor y gwanwyn 2005 i Gynradd, Uwchradd a Chynhwysiad
- Hwyl Fawr, Lloyd
- Adroddiad Arolwg Ysgol Gynradd Manselton
- Holiadur Ysgol
- Sylwadau ar ôl Ymweld ag Ysgolion
- CL@SS!
- Rhestr wirio'r Cydlynydd
- Uwchraddio Clicker 5
- Disgiau Adnoddau Dysgu-TGCh

Cofiwch:

- Llinell gymorth: 01792 636900 Desg Wasanaeth ar gyfer ymholiadau technegol
- YGG Bryn Tawe: 01792 560649 Tîm Cwricwlwm TGCh

ACTIVstudio2

Erbyn hyn, dylech fod wedi derbyn eich copi o ddisg Rhaglen ACTIVstudio2 Promethean a disg Adnoddau.

Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh wedi trefnu uwchraddio rhad ac am ddim ar gyfer fersiwn ddiweddaraf ACTIVstudio2 ar gyfer pob ysgol gydag ACTIVboard Promethean (Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol), gan arbed dros £20 mewn costau gweinyddol i bob ysgol.

Mae'r rhaglen ACTIVstudio2 wedi ei hailysgrifennu'n llwyr gydag ystod o *ddulliau unigryw a dethol i ddysgu.* Mae'r rhaglen hefyd yn cynnwys "dulliau pŵer" newydd fel onglydd, dis a phren mesur cwbl ymarferol.

Mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh eisoes wedi dechrau cynnal cyrsiau hyfforddi ar ddefnyddio ACTIVstudio2, a'i berthnasedd i feysydd penodol yn y cwricwlwm. Mae rhestr o gyrsiau byr gwanwyn 2005 ar dudalen 2 y cylchlythyr hwn neu rhan y Cyrsiau Byr ar wefan Dysgu-TGCh: *http://www.learn-ict.org.uk/courses/courses.asp.*

Hefyd, mae disg y Rhaglen yn cynnwys fersiwn ddiweddaraf gyrrwr y bwrdd gwyn. Fodd bynnag, oni bai eich bod yn cael problemau wrth reoli a graddnodi eich bwrdd gwyn rhyngweithiol, efallai na fydd angen i chi osod y gyrrwr newydd.

Er bod yna rhai adnoddau ar ddisg y rhaglen, mae'r rhan fwyaf o'r adnoddau ar yr ail ddisg. Mae hwn yn cynnwys ffeiliau clywedol a cherddorol yn ogystal â lluniau, delweddau ac enghreiffitau o siartiau troi ar gyfer y rhan fwyaf o feysydd y cwricwlwm.

ACTIVstudio2

Os oes angen unrhyw help arnoch i gael y gorau o ACTIVstudio2, cofiwch bod y Tîm Cwricwlwm TGCh yma i'ch helpu. Defnyddiwch eich Credydau TGCh i drefnu Athro Ymgynghorol i ymweld â'ch ysgol. Cysylltwch â Lindsay Harvey ar 01792 562669 neu e-bostiwch

Rhowch fywyd i'ch delweddau digidol gyda PhotoStory 3!

I'r rheiny ohonoch sy'n chwilio am raglen ar wahân i Textease Presenter neu Microsoft PowerPoint i ddangos eich ffotograffau digidol, peidiwch ag edrych ymhellach na Photo Story 3. Mae'r rhaglen hon, gan Microsoft, yn rhoi bywyd i'ch delweddau digidol. Gydag un clic, mae modd twtio, tocio neu droi lluniau. Wedi i chi olygu eich ffotograffau gallwch ychwanegu effeithiau arbennig, traciau sain, a'ch adroddiad eich hun. Mae hefyd yn bosibl personoli delweddau gyda theitlau a chapsiynau. Mae'r rhaglen yn hawdd iawn i'w defnyddio, gan alluogi creu cyflwyniad soffistigedig mewn munudau. I'r rhai mwy anturus yn eich mysg, mae'r rhaglen yn cynnig ystod o opsiynau golygu a fformatio.

Byddwch yn ymwybodol y bydd Photo Story 3 ond yn gweithio ar y system weithredu Windows XP gyda Media Player 10 wedi'i osod. Gellir dod o hyd i Photo Story 3 ar:

http://www.microsoft.com/windowsxp/using/digitalphotography/photostory/default.mspx

Gellir lawrlwytho Media Player 10 (ar gyfer Windows XP yn unig) o:

http://www.microsoft.com/windows/windowsmedia/mp10/default.aspx

Rhaglen Cwrs Byr Cynradd — Gwanwyn 2005

Rhaglen Hyfforddi Cwricwlwm TGCh ar gyfer Tymor y gwanwyn 2005

Dyddiad	Tetil y Cwrs	Amser
Ion 5	Creu Cyflwyniadau Amlgyfrwng a Sgriniau Rhyngweithiol yn Nghyfnod Allweddol 2	9.00-3.30
Ion 7	Defnyddio'r We a BGRh i gefnogi Rhifedd	9.00-3.30
Chwef 2	Creu gwefannau ysgolion gan ddefnyddio Schools ik.com	9.00-3.30
Chwef 3	Defnyddio'r We a BGRh i gefnogi Llythrennedd	9.00-3.30
Chwef 9	Offer Cyntaf Tizzy	9.00-3.30
Chwef 10	Defnyddio'r We a BGRh i gefnogi Gwyddoniaeth	9.00-3.30
Chwef 21	*Defnyddio e-bost ar gyfer Dysgu ac Addysgu* —Mae'r cwrs hwn wedi'i ddileu!	
Chwef 22	Diwrnod Cydlynwyr TG	9.00-3.30
Chwef 23	TGCh a Cherddoriaeth Cyfnod Allweddol 1	9.00-3.30
Chwef 25	Defnyddio'r BGRh gydag ACTIVstudio i gefnogi'r Cwricwlwm Cynradd	9.00-3.30
Maw 8	Defnyddio camera Digidol a Sganiwr fel Adnoddau i gyfoethogi'r Cwricwlwm Celf	9.00-3.30
Maw 9	TGCh a Cherddoriaeth Cyfnod Allweddol 2	9.00-3.30
Maw 16	Defnyddio Fideo Digidol yn yr Ystafell Ddosbarth Gynradd	9.00-3.30
Maw 21	Paentio Textease	9.00-3.30
Maw 22	Diweddaru sgriniau'r We	9.00-3.30
Maw 23	Defnyddio'r We (Band eang) ar gyfer Dysgu ac Addysgu	9.00-3.30

Rhaglen Cwrs Byr Uwchradd — Gwanwyn 2005

Peidiwch ag anghofio gwneud cais am y cyrsiau drwy gwblhau'r Ffurflen Gofrestru felen yn y Llyfryn Hyfforddi a Datblygu!

Dyddiad	Teitl y Cwrs	Amser
Ion 11	Gwella eich sgiliau Microsoft PowerPoint	9.00-3.30
Ion 18	Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i gefnogi Rhifedd	9.00-3.30
Ion 27	Defnyddio'r Bwrdd Gwyn Rhyngweithiol i gefnogi Ieithoedd Modern Tramor	9.00-3.30
Chwef 21	*Defnyddio e-bost ar gyfer Dysgu ac Addysgu* —Mae'r cwrs hwn wedi'i ddileu!	
Maw 7	Cyfarfod Cydlynwyr TG	9.00-3.30
Maw 10	Defnyddio TGCh i gefnogi Dysgu ac Addysgu	9.00-3.30
Maw 11	HTML - Y tu hwnt i Amlgyfrwng	9.00-3.30
Maw 15	Technoleg Cerddoriaeth i Gefnogi Cyfnod Allweddol 4	9.00-3.30

Rhaglen Cwrs Byr Cynhwysiad —Gwanwyn 2005

Dyddiad	Teitl y Cwrs	Amser
Ion 17	Clicker 4: Gwneud Banciau Geiriau sy'n Siarad	9.00-4.00
Chwef 8	Defnyddio TG i Gefnogi Myfyrwyr gyda Dyslecsia	9.00-4.00
Maw 14	Cloze Pro	9.00-4.00
Maw 17	Clicker 4: Gwneud Banciau Geiriau sy'n Siarad	9.00-4.00

Hwyl Fawr, Lloyd!

Lloyd Jones, y Dirprwy Bennaeth newydd yn Ysgol Gynradd San Helen.

Ymunodd Lloyd Jones â'r Tîm Cwricwlwm TGCh fis Medi 2002. Wrth weithio gyda'i gydweithwyr ar y rhaglen TILT, rôl Lloyd oedd datblygu sgiliau TGCh athrawon. Yn frwdfrydig, yn amyneddgar ac yn gefnogol, rhagorai yn y rôl hon. Mae llawer o ddisgyblion Dinas a Sir Abertawe bellach yn elwa o'r gwaith y mae Lloyd wedi'i gyflawni gyda'r athrawon.

Yn siaradwr Cymraeg (ac yn gefnogwr brwd y Gweilch!), roedd o fudd mawr i'r Tîm Cwricwlwm. Roedd ei ffordd gyfeillgar, gwylaidd, didaro ynghŷd â'i agwedd broffesiynol ymroddgar yn golygu mae ef oedd y cydweithiwr delfrydol.

Dymunwn bob hapusrwydd a llwyddiant iddo fel Dirprwy Bennaeth Ysgol Gynradd San Helen - ni sydd ar ein colled, a nhw sydd ar eu hennill!

Taflu Goleuni ar Arolwg Manselton

Erthygl wedi'i chyflwyno gan Tim Richards, Cydlynydd TG Ysgol Gynradd Manselton

www.manselton.baglanit.org.uk

Yn ystod Tymor yr haf 2004 daeth llythyr trwy'r post yr oeddem oll yn ei ddisgwyl. Roedd yr ysgol i gael arolwg yn ystod Tymor yr hydref. Fel cydlynydd, yn naturiol roedd fy stumog yn troi wrth feddwl am y peth. Yn ffodus, penderfynodd ein cyfrifiaduron ein helpu a gweithio, a oedd yn golygu bod yr athrawon a'r plant yn gallu dangos yr hyn yr oeddent yn medru ei wneud.

Roedd yn gas gen i feddwl am y cyfarfod Cydylynydd gyda'r arolygydd! Yn lwcus roedd ein tîm arolygu'n broffesiynol dros ben ac yn hawdd iawn sgwrsio â nhw. Roedd yr ysgol wedi sefydlu nifer o systemau newydd gan gynnwys defnyddio Mewnrwyd, portffolio ar-lein a systemau cynllunio a rhwydwaith di-wifr i'w defnyddio gyda Tablet PCs a Chyfrifiaduron Côl. Roedd y cyfan wedi cymryd ymdrech sylweddol o ran arian ac amser felly roeddem yn gobeithio y byddai'n cael ei werthfawrogi! Ac mi roedd diolch byth. Roedd holl waith caled y staff yn werth chweil ac roedd ymyddygiad y cyfrifiaduron yn wych!

Mae'r fframwaith arolwg newydd yn pwysleisio ym mha le yr ydych yn eich barn chi. Peidiwch â thanbrisio'ch hun. Yn aml, mae athrawon yn rhy ddiymhongar am yr hyn y maen nhw wedi'i gyflawni mewn pwnc. Dathlwch yr hyn yr ydych wedi'i gyflawni yn yr ysgol ond sylweddolwch hefyd fod yna ffyrdd o wella bob amser. A chofiwch, byddwch chi'n dal i fod yno pan fydd yr arolygwyr wedi mynd!

Holiadur Ysgol

Ar hyn o bryd rydym wrthi'n dylunio holiadur i bennu anghenion hyfforddi ysgolion unigol er mwyn llunio ein cefnogaeth gwricwlwm ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Dylech dderbyn eich holiaduron yn fuan ar ôl y gwyliau hanner tymor.

Byddwn yn ddiolchgar petai ysgolion yn gallu ffotocopïo'r taflenni a rhoi un yr un i bob aelod o staff. Pan fyddant wedi'u cwblhau, dychwelwch nhw at Steve Jones, Athro Ymgynghorol TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YGG Bryn Tawe, Penlan, Abertawe , SA5 7BU.

Byddwn yn dadansoddi anghenion hyfforddi TGCh eich ysgol ac yn darparu rhaglen hyfforddi bersonol i chi ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf. Bydd canlyniadau pob ysgol sydd wedi ymateb yn cael eu coladu a'u defnyddio fel sail i'n rhaglen cwrs byr yn y dyfodol.

Sylwadau o Ffurflenni Ymweld ag Ysgolion

Diolch yn fawr i bob ysgol sydd wedi darparu adborth ar ein gwasanaethau. Dyma rai o'r sylwadau yr ydym wedi'u derbyn:

"Mwynhau'n fawr ac yn werth chweil." "Eglurhad cam wrth gam gwych o alluoedd y meddalwedd." "HMS llwyddiannus – wedi'i baratoi'n dda – dull cyfeillgar." "Syniadau gwych i ddatblygu'r defnydd o'r We ar gyfer dysgu ac addysgu." "Safon uchel gyda swm helaeth o wybodaeth ddefnyddiol ar arfer gorau, wedi'i gyflwyno'n arbenigol." "Sesiwn werth chweil – gwych!" "Sesiwn wirioneddol werth chweil a ddiwallodd anghenion y staff." "Amser ymateb gwych." "Fel arfer, yn glir, yn egnïol ac yn llawn hwyl."

Ceisiadau ar gyfer Grŵp Arfer Da (CL@SS)

Gwahoddir ceisiadau gan bartïon â diddordeb i ymuno â grŵp Arfer Da TGCh. Rydym yn rhagweld y bydd y grŵp yn cynrychioli ein holl ysgolion ac yn darparu gwybodaeth i wella cefnogaeth cwricwlwm TGCh. Bydd y grŵp yn rhan bwysig o'r fenter CL@SS (*Cyfrifiaduron a Dysgu yn Ysgolion Abertawe*) sydd ar ddod (i'w lansio Dymor yr haf).

Gobeithiwn y bydd gan y grŵp 15 aelod, gan gynnwys cynrychiolwyr oddi wrth: 5 ysgol gynradd, 1 ysgol iau, 1 ysgol fabanod, 1 ysgol feithrin, 1 ysgol arbennig , 4 ysgol uwchradd a 2 o'r Tîm Cwricwlwm TGCh.

Cynhelir cyfarfodydd unwaith y tymor yn Uned Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg yn YGG Bryn Tawe. Cynghorir ymgeiswyr y telir am gostau cyflenwi ar gyfer y flwyddyn gyntaf yn unig. Fodd bynnag, rydym yn gofyn i'ch Pennaeth gefnogi'ch cais a darparu ymroddiad y bydd ymgeiswyr yn cael eu rhyddhau yn ystod cyfnod cychwynnol y prosiect. Mae hyn yn golygu 6 diwrnod dros y 6 thymor nesaf (gan ddechrau Tymor yr hydref 2005 a'r cyfarfod terfynol wedi'i fwriadu ar gyfer Tymor yr haf 2007).

Anfonwch geisiadau wedi'u cwblhau (copïau caled yn unig) at: Lindsay Harvey, Cynghorydd TGCh, Gwasanaeth Effeithiolrwydd Addysg, YGG Bryn Tawe, Penlan, Abertawe, SA5 7BU.

Rhestr Wirio'r Cydlynydd

Mae rhestr wirio'r cydlynydd wedi'i hamgau gyda'r Cylchlythyr hwn. Mae'r cynnwys wedi'u cymryd o feini prawf NAACE Mark, fframwaith ESTYN a gwefan arfer da TGCh BECTA (*http://www.ictadvice.org.uk/index.php*).

Mae croeso i chi gysylltu â'ch cyswllt Tîm Cwricwlwm TGCh neu Lindsay Harvey (01792 562669) am fanylion pellach.

Uwchraddio i Clicker 5? Edrychwch ar y wefan!

Os ydych chi'n meddwl uwchraddio i **Clicker 5**, mae'r Tîm Cwricwlwm TGCh yn gobeithio trefnu cynnig arbennig (i ysgolion Abertawe) gyda Meddalwedd Crick ar gyfer yr uwchraddio sydd i'w ryddhau fis Mawrth/Ebrill eleni. Byddwn yn rhoi gwybod i ysgolion gyda mwy o newyddion drwy wefan y cwricwlwm, Dysgu-TGCh (*www.learn-ict.org.uk*).

Os nad yw eich porydd gwe'n cychwyn gyda gwefan Dysgu-TGCh a hoffech ei osod i wneud hynny, dyma sut i fynd ati:

Dechreuwch Internet Explorer a rhowch *www.learn-ict.org.uk* yn y blwch cyfeiriadau yna gwasgwch y botwm **Enter** (neu cliciwch *Go* ar ochr dde'r blwch cyfeiriadau). Pan fydd y wefan dysgu-TGCh yn ymddangos yn y blwch, cliciwch y ddewislen **Tools** a dewiswch **Internet Options…** Yn y blwch deialog sy'n ymddangos, sicrhewch mae'r tab **General** sydd wedi'i ddewis a chliciwch y botwm **Use Current** yn yr adran **Home Page**. I orffen, cliciwch y botwm **OK** ar waelod y blwch deialog a dyna ni!

Ac i orffen...

Dros y tymhorau diwethaf, rydym wedi darparu cyfres o Ddisgiau Adnoddau i ysgolion. Mae'r disgiau hyn wedi cynnwys deunyddiau a rhaglenni defnyddiol, rhad ac am ddim a grewyd gan athrawon a'r Tîm Cwricwlwm TGCh. Rhag ofn eich bod wedi anghofio beth sydd ar y disgiau rydym wedi rhoi taflen gynnwys gyda'r cylchlythyr hwn. Byddwn yn ymdrechu i ddarparu disg Adnoddau newydd i chi sy'n cynnwys fersiynau mwy diweddar o'r meddalwedd yr ydym ni'n ei ystyried yn ddefnyddiol. Gobeithiwn y bydd hwn wedi'i gynhyrchu erbyn y cyfarfod Cydlynwyr TG nesaf a bydd hefyd yn cael ei anfon at bob ysgol yn Abertawe. Mae dyddiadau'r cyfarfod ar restr y cyrsiau byr ar Dudalen 2.